Ein Datganiad Polisi ar Ddiogelu

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel

Fel arweinwyr ac ymddiriedolwyr eglwys Penuel Caerfyrddin rydym yn llwyr ymroddedig i ddiogelu lles ein haelodau a'r rhai a ymddiriedwyd i'n gofal. Mae'r datganiad polisi hwn, ynghyd â'r canllawiau a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus yn ffurfio ein polisi a'n dulliau gweithredu.

Rydym yn cydnabod y gall plant, pobl ifanc ac oedolion fod yn destun camdriniaeth ac esgeulustod; rydym felly'n cydnabod ei fod yn ddyletswydd arnom ni i sicrhau eu diogelwch yn y gweithgareddau a gynhelir yn enw'r eglwys hon. Ein amcan yw darparu amgylchedd gofalgar a byddwn yn ymateb yn sensitif ac yn ddi-oed i unrhyw bryderon. Bydd aelodau'r eglwys, staff cyflogedig a'r gwirfoddolwyr yn barchus o bawb yn y lle hwn, yn hyrwyddo ethos o wrando ar blant a phobl bregus, a bydd eu hymddygiad yn adlewyrchu egwyddorion yr Eglwys Gristnogol.

Bydd yr eglwys yn gofalu am blant, pobl ifanc ac oedolion bregus, ac yn eu diogelu drwy weithredu'n unol â'r ymarfer da canlynol:

- **Ymateb priodol i bryderon a honiadau.** (Adrannau 3.2 a 4.2 o'r Llawlyfr) Rydym yn ymrwymo, yn unol â'n polisi a chanllawiau, i ymateb yn ddi-oed pan fydd camdriniaeth yn cael ei amau neu unrhyw bryderon neu honiadau eraill yn cael eu dwyn i'n sylw. Os yw'r Awdurdod Lleol neu'r Heddlu'n cynnal ymchwiliad byddwn yn cydweithio â nhw.
- **Proses recriwtio mwy diogel ar gyfer ein gweithwyr a'n gwirfoddolwyr.** (Adran 2 o'r Llawlyfr) Bydd yn cynnwys gwiriadau DBS pob 4 blynedd ar gyfer pob gweithiwr, arweinydd ac ymddiriedolwr perthnasol.
- **Hyfforddi a chefnogi ein gweithwyr a'n gwirfoddolwyr.**Hyn er mwyn eu cynorthwyo â'u gwaith ac i sicrhau diogelwch y plant a'r bobl bregus fydd yn eu gofal.
- **Hyrwyddo arfer da.** (Adrannau 3.1 a 4.1 o'r Llawlyfr) Hyn i sicrhau amgylchedd ddiogel.

Ein cyfrifoldeb

Rydym yn cytuno bod diogelu'n gyfrifoldeb i bawb a bod yn rhaid i bawb ohonom adrodd yn ddi-oed ynghylch unrhyw bryderon diogelu i'r Panel Diogelu Cydenwadol, i'r cydlynydd diogelu lleol neu, mewn argyfwng, i'r awdurdodau statudol. Mae'n gyfrifoldeb ar ymddiriedolwyr/ diaconiaid/ blaenoriaid* yr eglwys hon i sicrhau gweithredu'r polisi diogelu a'r arfer da cysylltiedig, a byddant yn cydweithio â'r Panel Diogelu Cydenwadol ar faterion diogelu.

EIN POBL CYSWLLT DIOGELU

Rydym wedi enwebu'r bobl canlynol i fod yn bobl cyswllt diogelu:-

EIN CYDLYNYDD DIOGELU: Samuel Edwards (Enw)

Manylion cyswllt 07960 243 601

DIACON/BLAENOR/YMDDIRIEDOLWR DIOGELU: Eilir Jones (Enw)

Manylion cyswllt 07946 245 969

Dyddiedig 01/10/24

Swyddog diogelu enwadol: (Y Panel Diogelu Cydenwadol) JULIE EDWARDS
Manylion cyswllt: post@panel.cymru 01745 817584